NEWYDDION TEULU A CHYHOEDDIADAU

ADEILAD Y CAPEL
CYFARFOD PWYSIG
4:00p.m. HEDDIW

Apeliwn yn daer ar i BAWB ddod draw i glywed am y sefyllfa ddiweddaraf. Byddwn yn gofyn barn am y dewis o gadeiriau, lliwiau paent a'r math o oleuadau y dylid eu cael. Dewch yn llu!

MERCHED Y TABERNACL

Dydd Mawrth, Gorffennaf 13

Eglwys Llanilltud Fawr
a'r cyffiniau
gyda Dr Elin Jones
(Cwrdd wrth yr Eglwys am 10.30)

DAWNSIO DROS GYMRU

Dymuniadau gorau i Alys Thomas, Meisgyn, sydd yn cynrychioli Cymru mewn gornest ddawnsio ryngwladol yn ninas Bucharest y penwythnos hwn. Llongyfarchiadau iddi hefyd ar y sgwrs ddiddorol ar y pwnc ar Radio Cymru.

TREFNIADAU'R HAF

Unwaith eto eleni, byddwn yn rhannu'r Suliau yn ystod yr haf rhwng Efail Isaf a Gwaelod-y-garth.

Gorff 26: Bethlehem, Gwaelod-y-garth
Awst 2: Efail Isaf - Allan James.
Awst 9: Bethlehem, Gwaelod-y-garth
Awst 16: Efail Isaf - Geraint Rees.
Awst 23: Bethlehem, Gwaelod-y-garth
Awst 30: Efail Isaf - Eirian Rees.

Y SULIAU NESAF

Gorffennaf 5:
Oedfa Gymun Deuluol
(Bydd y plant hynaf yn cymuno)
Llywydd: Heulyn Rees
Cymun: Emlyn Davies
Taflen a Sgrin: Heulyn Rees
Gorffennaf 12:
Sul y Cyfundeb
(gweler isod)
Gorffennaf 19:
Emlyn Davies
Llywydd: Iwan Rowlands
Taflen a Sgrin: Emlyn Davies
Gorffennaf 26:
Cyd-addoli ym Methlehem
Gwaelod-y-garth

YR YSGOL SUL

Heddiw:
Heather Jones, Lowri Roberts
Gorffennaf 5:
Oedfa Gymun Deuluol
Gorffennaf 12:
Sul y Cyfundeb
Gorffennaf 19:
Mabolgampau Diwedd Tymor

SUL Y CYFUNDEB
Gorffennaf 12fed am 10:30a.m.

Ysgol Gymraeg Pen-y-Garth
Sully Road, Penarth CF64 2QN
(Fydd dim oedfa yma yn Efail Isaf)
Oedfa deuluol fer ar y thema
"Myfi Yw"
Byddwn ni fel eglwys yn cyflwyno
"Myfi yw'r wir winwydden"

DALIWCH I GEFNOGI'R BANC BWYD A'R CASGLIAD DILLAD